north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019

---

**PWNC**

Eitem 5:DIWEDDARIAD - BYSIAU RHANBARTHOL

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd ar ôl ystyried y sefyllfa bresennol i anfon llythyr i Lywodraeth Cymru ac i Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Prydain ar ran yr Is-Fwrdd i nodi'r problemau y gall godi o ganlyniad i'r Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mynegwyd o fis Ionawr ymlaen y bydd Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Cyhoeddus Gwasanaeth Cyhoeddus yn mynd yn weithredol. Ychwanegwyd fod y cynghorau lleol wedi derbyn llythyr gan yr Adran Drafnidiaeth yn egluro'r broses ble gallai awdurdodau wneud cais am estyniad i'r broses. Yn ddarostyngedig i fodloni'r meini prawf bydd modd i gerbydau unigol gael eu heithrio o'r gofynion tan Rhagfyr 2021 ac i gael estyniad pellach i hanner fflyd cludo dysgwyr tan fis Rhagfyr 2023.

Er bod swyddogion yn croesawu'r trefniadau mae nifer o faterion yn codi yn benodol nad yw'r Adran Drafnidiaeth yn cynnig unrhyw randdirymiad ar gyfer cludo dysgwyr. Yn ychwanegol at hyn nodwyd fod pryder mai dim ond os na werthir mwy na 20% o seddi ar fysiau y bydd modd cael yr estyniad. Mynegwyd fod angen amlygu'r pryderon i'r Llywodraeth a'r Adran Drafnidiaeth.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

---

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Penderfyniad:** | Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019 |

---

**PWNC**

Eitem 6:DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD MEWN PERTHYNAS Â CHYFYNGIADAU CYFLYMDER 20 MYA AR GYFER ARDALOEDD PRESWYL LEDLED CYMRU

---

**PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd fod angen i'r Is-Fwrdd fynd ag adroddiad i drafod yr effaith economaidd ar gyfyngiadau cyflymder 20 milltir yr awr ar gyfer ardaloedd i'r Bwrdd Uchelgais.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ar 7 Mai 2019, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu 20mya fel y cyfyngiad cyflymer rhagostynedig ar gyfer ardaloedd preswyl ledled Cymru. Tynnwyd sylw at nifer o bryderon a oedd yn cynnwys lonydd cyswllt yn cael ei leihau i gyflymder 20mya. Ychwanegwyd nad oes unrhyw drafodaeth ar yr effaith economaidd ac o ganlyniad i hyn fod angen codi'r mater gyda'r Bwrdd Uchelgais.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

---

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019

---

**PWNC**

Eitem 7:DIWEDDARIAD PARCIO AR BALMENTYDD

---

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd fod y swyddogion perthnasol yn mynychu'r cyfarfodydd y Grŵp Tasg Parcio Palmentydd gan nodi eu bod yn hapus a'r cynnydd sydd wedi ei wneud a bod angen nodi'r canlynol:

- Nad oes deddfwriaeth flanced ar gyfer pob ardal
- Fod angen meddwl am leoliadau penodol ac am lif traffig
- Cefnogaeth i waharddiadau parcio yn lleol ond fod angen canllawiau clir ac arian ar gyfer codi ymwybyddiaeth ac amser staff.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth ym mis Gorffennaf y byddai Grŵp Tasg yn cael ei sefydlu i edrych ar broblemau sydd yn cael eu creu gan barcio ar balmentydd. Mynegwyd fod Cynghorau Conwy ac Ynys Môn yn cynrychioli Awdurdodau Gogledd Cymru.

Nodwyd fod angen amlygu'r pwyntiau uchod yn nhrafodaethau'r Grŵp Tasg.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019

---

**PWNC**

Eitem 8:PAPUR DIWEDDARU AR DDATBLYGIAD MABWYSIADU 'FFYRDD HEB EU MABWYSIADU' LEDLED CYMRU

---

**PENDERFYNIAD**

Cefnogwyd fod y swyddogion perthnasol yn mynychu’r cyfarfodydd Grŵp Tasg Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu gan adrodd yn ôl i’r Is-Fwrdd Trafnidiaeth

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mynegwyd fod Tasglu Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu wedi ei greu er mwyn edrych ar y ffordd orau o sefydlu cronfa ddata i ddarparu cofnod cynhwysfawr o’r holl ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu yng Nghymru. Bydd Swyddog o Gyngor Môn yn mynychu’r cyfarfodydd ac yn adrodd yn ôl ar y datblygiadau i’r Is-Fwrdd Trafnidiaeth.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd a’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu gynnwys yn yr adroddiad.

---

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**TAFLEN BENDERFYNIAD**
**Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019**

**Dyddiad y Penderfyniad:** Dydd Llun, 2 Rhagfyr 2019

---

**PWNC**

Eitem 10:DYDDIADAU CYFARFODYDD 2020

---

**PENDERFYNIAD**

Derbyniwyd y dyddiadau a gyniwyd ar gyfer cyfarfodydd yr Is-Fwrdd Trafnidiaeth ar gyfer 2020.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

I gael dyddiadau ar gyfer cyfarfod yn ystod 2020.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Dim

---